



Rhybudd Preifatrwydd Ymgeisydd

BETH YW PWRPAS Y DDOGFEN HON?

Mae Antur Waunfawr yn "reolwr data". Mae hyn yn golygu ein bod yn gyfrifol am benderfynu sut rydym yn dal a defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi. Mae copi o'r nodyn preifatrwydd hwn yn cael ei anfon atoch oherwydd eich bod yn gwneud cais am waith gyda ni (boed fel cyflogai, gweithiwr neu contractwr). Mae'r nodyn hwn yn eich hysbysu o sut a pham y bydd eich data personol yn cael ei ddefnyddio, yn bennaf ar gyfer y broses recriwtio, a pha mor hir y bydd yn cael ei gadw fel arfer. Mae'n rhoi gwybodaeth benodol i chi y mae'n rhaid i ni ei ddarparu o dan y Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol ((UE) 2016/679) (GDPR).

EGWYDDORION DIOGELU DATA

Rydym yn casglu gwybodaeth bersonol am ymgeiswyr o'r ffynonellau canlynol:

- Chi, yr ymgeisydd.
- Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) mewn perthynas ag euogfarnau troseddol.
- Eich canolwyr, oddi wrth bwy y casglwn y categorïau canlynol o ddata: Enw, cyfeiriad, hyd cyflogaeth, perthynas, salwch a manylion disgyblu.

SUT RYDYM YN DEFNYDDIO GWYBODAETH AMDANOCH CHI

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a gasglwn amdanoch chi i:

- Asesu eich sgiliau, cymwysterau, a'ch addasrwydd ar gyfer y rôl
- Cynnal gwiriadau cefndir a chyfeiriadau.
- Cyfathrebu â chi am y broses recriwtio.
- Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol.

Mae yn rhan o'n buddiannau cyfreithlon i benderfynu a ddylid eich penodi i rôl gan y byddai'n fuddiol i'n busnes benodi rhywun i'r [ôl hwnnw].

Mae angen i ni hefyd brosesu eich gwybodaeth bersonol i benderfynu a ddylem ymrwymo i contract o gyflogaeth gyda chi.

Ar ôl derbyn eich ffurflen gais byddwn wedyn yn prosesu'r wybodaeth honno i benderfynu a ydych yn bodloni'r gofynion sylfaenol sydd ar y rhestr fer ar gyfer y rôl. Os gwnewch chi, byddwn yn penderfynu a yw'ch cais yn ddigon cryf i'ch gwahodd am gyfweiliad. Os byddwn yn eich galw am gyfweiliad, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i ni yn y cyfweiliad i benderfynu a ddylid cynnig y rôl i chi. Os byddwn yn penderfynu cynnig y rôl i chi, byddwn

wedyn n derbyn cyfeiriadau a, gwneud gwiriad cofnod troseddol a unrhyw wiriad arall cyn cadarnhau eich apwyntiad.

Os na fyddwch yn darparu gwybodaeth bersonol

Os na fyddwch yn darparu gwybodaeth, sy'n angenrheidiol i ni ystyried eich cais (fel tystiolaeth o gymwysterau neu hanes gwaith), pan ofynnir amdani, ni fyddwn yn gallu prosesu'ch cais yn llwyddiannus. Er enghraifft, os oes arnom angen gwiriad credyd neu gyfeiriadau ar gyfer y rôl hon ac os na fyddwch yn rhoi manylion perthnasol inni, ni fyddwn yn gallu cymryd eich cais ymhellach.

SUT FYDDWN YN DEFNYDDIO GWYBODAETH BERSONOL SENSITIF

Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol sensitif yn y ffyrdd canlynol:

- Byddwn yn defnyddio gwybodaeth am eich statws anabledd i ystyried a oes angen i ni ddarparu addasiadau priodol yn ystod y broses recriwtio, er enghraifft, a oes angen gwneud addasiadau yn ystod prawf neu gyfweiliad.

GWYBODAETH AM DROSEDDAU

Rydym ni yn rhagweld y byddwn yn prosesu gwybodaeth am gofnodion troseddol.

Byddwn yn casglu gwybodaeth am eich hanes cofnodion troseddol os hoffem gynnig y rôl] i chi (yn amodol ar wiriadau ac unrhyw amodau eraill, fel cyfeiriadau boddhaol). Mae gennym yr hawl i gynnal gwiriad cofnodion troseddol er mwyn bodloni ein hunain nad oes unrhyw beth yn eich hanes troseddol sy'n eich gwneud yn anaddas ar gyfer y rôl. Yn benodol:

- Mae gofyn cyfreithiol arnom gan Arolygiaeth Gofal Cymru i gynnal gwiriadau cofnod troseddol i'r rhai sy'n cyflawni rôl,
- Mae rôl yn gofyn am lefel uchel o ymddiriedaeth a chywirdeb gan ei fod yn ymwneud â delio ag unigolion bregus ac felly hoffem ofyn ichi ofyn am ddatgeliad sylfaenol o'ch hanes cofnodion troseddol.

Mae gennym ddogfen bolisi priodol a mesurau diogelu y mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni eu cynnal wrth brosesu data o'r fath.

GWNEUD PENDERFYNIAD AWTOMATIG

Ni fydd penderfyniadau awtomatig yn cael ei wneud amdanoch a fydd yn cael effaith sylweddol arnoch chi.

RHANNU DATA

Document Reference: AWP 99	Issue Number: 01	Issue Date: 01/06/2018	Approved by: Senior Management	Page 2 of 4
----------------------------	------------------	------------------------	--------------------------------	-------------

Am ba hyd byddwch yn cadw'r wybodaeth amdanaf i?

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol am gyfnod o 9 mis ar ôl i ni roi gwybod i chi ein penderfyniad ynghylch y penodiad i rôl. Rydym yn cadw eich gwybodaeth bersonol am y cyfnod hwnnw fel y gallwn ddangos, yn achos hawliad cyfreithiol, nad ydym wedi gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr ar sail gwaharddedig a'n bod wedi cynnal yr ymarfer recriwtio mewn modd teg a thryloyw. Ar ôl y cyfnod hwn, byddwn yn dinistrio'ch gwybodaeth bersonol yn ddiogel yn unol â'n polisi cadw data.

Os ydym am gadw'ch gwybodaeth bersonol ar ffeil, ar y sail y gall cyfle pellach godi yn y dyfodol ac efallai y byddwn am eich ystyried am hynny, byddwn yn ysgrifennu atoch chi ar wahân, gan ofyn am eich caniatâd penodol i gadw'ch gwybodaeth bersonol ar gyfer cyfnod penodol ar y sail honno.

HAWLIAU MYNEDIAD, CYSYLLTIAD, DILEU A CHYFYNGU

Eich hawliau mewn cysylltiad â gwybodaeth bersonol

Dan rai amgylchiadau, yn ôl y gyfraith mae gennych yr hawl i:

- I ofyn am fynediad at eich gwybodaeth bersonol (gelwir hyn yn "gais am fynediad deiliad data"). Mae hyn yn eich galluogi i dderbyn copi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi ac i wirio ein bod yn ei brosesu'n gyfreithlon.
- I ofyn am gywiro'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei ddal amdanoch chi. Mae hyn yn eich galluogi i gael unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir sydd gennym amdanoch chi wedi'i gywiro.
- I ofyn am ddileu eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni ddileu gwybodaeth bersonol lle nad oes rheswm da inni barhau i'w brosesu. Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i ni waredu neu ddileu eich gwybodaeth bersonol lle rydych wedi ymarfer eich hawl i wrthwynebu i brosesu (gweler isod).
- I wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol pan fyddwn ni'n dibynnu ar sail gyfreithlon (neu rai trydydd parti) ac mae rhywbeth am eich sefyllfa benodol sy'n eich gwneud yn awyddus i wrthwynebu prosesu ar y sail hon. Mae gennych hefyd yr hawl i wrthwynebu lle rydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol at ddibenion marchnata uniongyrchol.
- I ofyn am gyfyngu prosesu eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi i ofyn i ni atal prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, er enghraifft, os ydych chi am i ni sefydlu ei gywirdeb neu'r rheswm dros ei brosesu.
- I ofyn am drosglwyddo'ch gwybodaeth bersonol i barti arall.

Os ydych am adolygu, gwirio, cywiro neu ofyn am ddileu eich gwybodaeth bersonol, wrthwynebu prosesu eich data personol, neu ofyn i ni drosglwyddo copi o'ch gwybodaeth bersonol i barti arall, cysylltwch â'r Adran Adnoddau Dynol yn ysgrifenedig.

HAWL I DYNNU YN EI ÔL EICH CANIATÂD

Pan wnaethoch chi gais am y rôl hon, rhoddasoch ganiatâd ar inni brosesu eich gwybodaeth bersonol at ddibenion recriwtio. Mae gennych yr hawl i dynnu'ch caniatâd yn ôl ar gyfer

prosesu eich data at y diben hwnnw ar unrhyw adeg. I dynnu'ch caniatâd yn ôl, cysylltwch â'r Adran Adnoddau Dynol. Ar ôl i ni dderbyn neges eich bod wedi tynnu'ch caniatâd yn ôl, ni fyddwn yn prosesu'ch cais ymhellach ac, yn amodol ar ein polisi cadw, byddwn yn gwaredu eich data personol yn ddiogel.

Yr wyf fi, _____ (enw'r ymgeisydd), yn cydnabod fy mod wedi derbyn copi o Rhybudd Preifatrwydd Ymgeisydd ar _____ (dyddiad), a fy mod wedi ei ddarllen a'i ddeall.

Llofnod

.....

Enw

.....